Cynulliad Cenedlaethol Cymru | National Assembly for Wales

# Hysbysiad Hwylus

## Fframwaith Buddsoddi Cyfalaf Strategol

Mai 2010

## 1. Beth yw'r Fframwaith Buddsoddi Cyfalaf Strategol?

Dull newydd Llywodraeth Cynulliad Cymru o ymdrin â gwariant cyfalaf yw'r Fframwaith Buddsoddi Cyfalaf Strategol, a sefydlwyd yn unol â'r ymrwymiad a wnaed yn nogfen *Cymru'n Un*[1] i:

> … sefydlu Bwrdd Buddsoddi Cyfalaf Strategol i sicrhau bod cronfeydd cyfalaf yn cael eu defnyddio yn y ffordd orau ac i ddatblygu pob cyfle i fanteisio ar gyllid cyfalaf sy'n gydnaws â gwasanaeth cyhoeddus atebol, sy'n canolbwyntio ar y dinesydd.

Yn ôl Llywodraeth Cymru, bydd rhoi'r Fframwaith ar waith:[2]

> yn arwain at mwy o gydweithio ar draws ffiniau, yn datblygu effeithlonrwydd ac yn rhoi gwerth am arian wrth weithredu ein prosiectau a'n rhaglenni buddsoddi cyfalaf.

Cafwyd dwy rownd o ddosbarthu arian o dan y Fframwaith hyd yn hyn, sydd wedi golygu bod dros £450 miliwn wedi ei ddyrannu dros dro. Fodd bynnag, disgwylir y bydd prosiectau a ariennir drwy'r Fframwaith hefyd yn llwyddo i ddenu cymorth ariannol o ffynonellau eraill.[3]

## 2. Sut y caiff y fframwaith ei weinyddu?

**1: Bwrdd Buddsoddi Cyfalaf Strategol.** Sefydlodd Llywodraeth Cymru'r Bwrdd Buddsoddi Cyfalaf Strategol yn 2008.[4] Un o bwyllgorau'r Cabinet yw'r Bwrdd, sy'n gwneud penderfyniadau ar gynigion buddsoddi ac sy'n arolygu'r broses o gyflwyno rhaglenni buddsoddi cyfalaf. Gellir dod o hyd i fanylion am aelodaeth y Bwrdd a'i gylch gorchwyl ar wefan y Pwyllgor.[5] O fis Ionawr 2010, Pwyllgor y Cabinet ar y Gyllideb a Pherfformiad sydd wedi bod yn arwain ar waith y Bwrdd.[6]

**2: Panel Buddsoddi Cyfalaf Strategol.** Sefydlwyd Panel Buddsoddi Cyfalaf Strategol yn 2008 i roi cyngor i'r Bwrdd er mwyn ei alluogi i wneud y penderfyniadau gorau wrth

[1] Cymru'n Un: rhaglen flaengar ar gyfer llywodraethu Cymru (Mehefin 2007). [26 Mawrth 2009]
[2] Llywodraeth Cymru, Andrew Davies (y Gweinidog dros Gyllid a Chyflenwi Gwasanaethau Cyhoeddus), *Fframwaith Buddsoddi Cyfalaf Strategol*, Datganiad Ysgrifenedig, 12 Mai 2008
[3] Llywodraeth Cymru, Andrew Davies (y Gweinidog dros Gyllid a Chyflenwi Gwasanaethau Cyhoeddus), Cyllideb Derfynol 2009-2010, Datganiad Ysgrifenedig, 2 Rhagfyr 2008
[4] Llywodraeth Cymru, Andrew Davies (y Gweinidog dros Gyllid a Chyflenwi Gwasanaethau Cyhoeddus), *Fframwaith Buddsoddi Cyfalaf Strategol*, Datganiad Ysgrifenedig, 12 Mai 2008
[5] Llywodraeth Cymru, *Pwyllgor Cabinet ar Fuddsoddi Cyfalaf Strategol*
[6] Llywodraeth Cymru, *Is-bwyllgorau nad ydynt yn cyfarfod bellach*

ddyrannu arian o dan y Fframwaith.[7] Mae gan y Panel chwe aelod, sydd ag arbenigedd ym maes cyllid corfforaethol, adeiladu a chaffael. Fe'u penodwyd am gyfnod o dair blynedd.

**3: Cronfa Buddsoddi Cyfalaf Strategol.** Dosberthir arian gan y Fframwaith Buddsoddi Cyfalaf Strategol o'r Gronfa Buddsoddi Cyfalaf Strategol. Ym mis Tachwedd 2007, dywedodd y Gweinidog dros Gyllid a Chyflenwi Gwasanaethau Cyhoeddus fod y gronfa yn '*fwy na £400 miliwn dros y tair blynedd nesaf'.* [8]

Mewn sesiwn graffu ar y gyllideb ddrafft ar gyfer 2008-09, dywedodd y Gweinidog dros Gyllid a Chyflenwi Gwasanaethau Cyhoeddus fod y gronfa o £400 miliwn yn wariant cyfalaf newydd a ddyrannwyd drwy wastatáu dyraniadau cyfalaf ar draws y gwahanol bortffolios.[9]

Mewn llythyr at y Pwyllgor Cyllid,[10] dywedodd y Gweinidog y byddai'r gronfa a sefydlwyd yng nghyllideb 2008-09 yn dod o arian cyfalaf wrth gefn (£339 miliwn) a hyblygrwydd diwedd blwyddyn[11] (£145 miliwn), gan wneud cyfanswm o tua £480 miliwn dros y tair blynedd ariannol nesaf, rhwng 2008-09 a 2010-11. Dywedodd hefyd y byddai proffil y buddsoddiad yn amrywio yn ôl proffil y prosiectau addas a phwysau cyfalaf nas rhagwelwyd.

## 3. Beth yw'r broses o wneud cais?

Nid oes manylion ar gael ar gyfer y broses a ddefnyddiwyd ar gyfer y rownd gyntaf o ddosbarthu arian o dan y Fframwaith. Fodd bynnag, cafwyd amlinelliad o'r ail rownd ym mis Mehefin gan Lywodraeth Cymru.[12]

Anogwyd noddwyr prosiectau i ddatblygu eu ceisiadau am brosiectau trwy ddefnyddio'r model 5 Achos.[13] Mae'r model yn cynrychioli arfer gorau o ran perfformiad sector cyhoeddus yn unol â **Llyfr Gwyrdd** Trysorlys Ei Mawrhydi.[14] Gofynnwyd i awdurdodau lleol gyflwyno eu cynigion drwy'r grwpiau craidd Cynllun Gofodol Cymru yr oeddent yn cael eu cynrychioli arnynt.

Roedd yn rhaid i geisiadau am brosiectau fodloni'r meini prawf a ganlyn:

1. Parodrwydd i ddechrau, yn cynnwys caniatâd cynllunio os oedd hynny'n briodol;
2. Cysylltiadau uniongyrchol ag Agenda Cymru'n Un;
3. Tystiolaeth o gydweithio ar draws adrannau;
4. Cydweddiad cryf â Chynllun Gofodol Cymru;
5. Bod y prosiectau'n cynnig ysgogiad economaidd, un ai trwy greu neu warchod swyddi

[7] Llywodraeth Cymru, **Andrew Davies (y Gweinidog dros Gyllid a Chyflenwi Gwasanaethau Cyhoeddus), *Penodi'r Panel Cynghori ar Fuddsoddi Cyfalaf Strategol*,** Datganiad Ysgrifenedig, 17 Medi 2008
[8] Llywodraeth Cymru, **Andrew Davies, (y Gweinidog dros Gyllid a Chyflenwi Gwasanaethau Cyhoeddus), *Cyllideb Flaengar i Gymru*,** Datganiad Ysgrifenedig, 5 November 2007
[9] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, **Cofnod y Trafodion [para 107]**, y Pwyllgor Cyllid, 8 Tachwedd 2007.
[10] Llywodraeth Cymru, ***Ymateb i'r adroddiad ar y gyllideb ddrafft ar gyfer 2008-09*,** 15 Ionawr 2008
[11] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau **Hysbysiad Hwylus ynghylch Hyblygrwydd Diwedd Blwyddyn**
[12] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, ***Gohebiaeth gan y Gweinidog dros Gyllid a Chyflenwi Gwasanaethau Cyhoeddus yn ymateb i sesiwn y Pwyllgor Cyllid, 2 Tachwedd 2009*** *(Saesneg yn unig)*
[13] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Papur y Pwyllgor Cyllid ***FIN(3)-01-09 Paper: Ymateb Llywodraeth Cymru i'r Adroddiad ar y gyllideb ddrafft ar gyfer 2009-10***, 2 Rhagfyr 2009 *(Saesneg yn unig)*
[14] Y Llyfr Gwyrdd yw'r pwynt canolog ar gyfer canllawiau ar asesiadau economaidd o wariant a buddsoddi a chanllawiau perthnasol yn cynnwys paratoi achosion busnes ar gyfer y sector cyhoeddus.

yn ystod y cyfnod adeiladu; a

6. Agwedd 'buddsoddi er mwyn arbed', gan arwain at arbedion effeithlonrwydd dros oes y prosiect.

Aseswyd y prosiectau mewn dau gam:[15]

1. Asesiad cychwynnol yn erbyn y chwe maen prawf er mwyn llunio rhestr fer o geisiadau; a
2. Cymhwyso pedwar prawf i'r ceisiadau ar y rhestr fer, sef:
   - A oes hyder bod y prosiect yn barod i wario?
   - Sgorio ar sail 'strategol', 'enghreifftiol' neu 'fodel';
   - Sgorio ar sail 'cadernid tîm y prosiect'; a
   - Sgorio ar y 'risg' sy'n gysylltiedig â'r prosiect.

Er mwyn cael yr arian sy'n weddill, roedd yn rhaid cael cymeradwyaeth i achos busnes llawn.

## 4. Pa brosiectau sydd wedi cael cymorth hyd yn hyn?

**Tranche 1:** Cyhoeddwyd y rownd gyntaf o brosiectau o dan y Fframwaith ym mis Rhagfyr 2008.[16]

**Tabl 1: Prosiectau Tranche 1**

| Teitl y Prosiect | (hyd at) £miliwn |
|---|---|
| Adeiladu ysgolion yng Nghasnewydd ac adfywio cymunedol | 15.0 |
| Rhaglen buddsoddi cyfalaf – ysgolion Cymru gyfan ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain | 5.0 |
| Ysgolion uwchradd Wrecsam | 5.0 |
| Adeiladu campws addysg a chymuned Blaenafon | 4.0 |
| Datblygu'r A465 rhwng Tredegar a Bryn-mawr | 9.2 |
| Gwella seilwaith y rheilffordd (Amwythig, Wrecsam, Caer) | 27.0 |
| Gwella seilwaith y rheilffordd (Abertawe, Tre-gwyr, Llanelli) | 20.0 |
| Creu rhanbarth carbon isel ym mlaenau'r cymoedd | 12.0 |
| Rhaglen adeiladu carbon isel i Gymru gyfan | 26.0 |
| Gweithfeydd trin gwastraff anaerobeg ledled Cymru | 4.0 |
| Darparu 400+ o dai fforddiadwy ledled Cymru | 42.0 |
| Rhaglen o welliannau i amddiffynfeydd rhag llifogydd / arfordirol ledled Cymru | 8.0 |
| Paratoi ar gyfer y ffliw pandemig | 59.0 |
| Gweledigaeth iechyd Abertawe – ail-lunio gwasanaethau gofal iechyd | 70.0 |
| Rhaglen newydd i wella gofal iechyd sylfaenol ledled Cymru | 16.4 |
| Gwasanaeth Ambiwlans Cymru - creu timau ymateb i ardal beryglon | 3.0 |
| Adeiladu canolfan iechyd a lles newydd ym Merthyr Tudful | 8.0 |
| Menter treftadaeth ddiwylliannol newydd i Gymru gyfan | 2.0 |
| Prosiect digideiddio Llyfrgell Genedlaethol Cymru ar-lein | 2.0 |
| Canolfan Rhannu Gwasanaethau De-ddwyrain Cymru – adnoddau dynol, cyflogres a hyfforddiant | 10.4 |
| Systemau gwybodaeth graffeg corfforaethol | 1.0 |
| **CYFANSWM** | **349.0** |

Ffynhonnell: Cynulliad Cenedlaethol Cymru, **Gohebiaeth gan y Gweinidog dros Gyllid a Chyflenwi Gwasanaethau Cyhoeddus yn ymateb i sesiwn y Pwyllgor Cyllid, 2 Tachwedd 2009, Atodiad A**

[15] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, ***Gohebiaeth gan y Gweinidog dros Gyllid a Chyflenwi Gwasanaethau Cyhoeddus yn ymateb i sesiwn y Pwyllgor Cyllid, 2 Tachwedd 2009*** *(Saesneg yn unig)*

[16] Llywodraeth Cymru, Andrew Davies, y Gweinidog dros Gyllid a Chyflenwi Gwasanaethau Cyhoeddus, **y Gyllideb Derfynol ar gyfer 2009-10**, Datganiad Ysgrifenedig, 2 Rhagfyr 2008

Mae'r symiau yn Nhabl 1 yn rhai dynodol ar gyfer y blynyddoedd ariannol rhwng 2008-09 a 2010-11, a chyfeirir atynt yn natganiad y Gweinidog fel 'hyd at' y swm a nodwyd. Nid yw'r datganiadau hyn yn gyfystyr â dyraniad ffurfiol o gyllid, oherwydd bod rhaid awdurdodi hynny drwy broses y gyllideb. Fel arfer, cyflwynir dyraniadau o dan y Fframwaith ym mhroses y gyllideb drwy'r gyllideb atodol.[17]

**Tranche 2:** Cyhoeddwyd yr ail rownd o brosiectau o dan y Fframwaith ym mis Hydref 2009. Rhoddwyd cymorth i ddeg o brosiectau, ac iddynt gyfanswm dynodol o tua £118 miliwn. O fewn y rownd honno, cyhoeddwyd ail rownd o ariannu, a oedd yn cynnwys £10 miliwn pellach. Mae'r prosiectau a gaiff eu hasesu yn ystod y rownd hon yn cynnwys Coridor Trafnidiaeth De-ddwyrain Cymru, Canolfannau Teithio Cynaliadwy a phrosiect Cyfalaf y Cyfryngau ym Masn y Rhâth.

**Tabl 2: Prosiectau Tranche 2**

| **Teitl y Prosiect** | **(hyd at) £miliwn** |
|---|---|
| Gweithfeydd Dysgu Glynebwy | 35.0 |
| Campws Dysgu Taf Elai | 12.0 |
| Adeiladau Ysgol ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain | 5.3 |
| Canolfan Gofal mewn Argyfwng Ysbyty'r Tywysog | 8.5 |
| Pecyn Cymorth Tai a Thai Fforddiadwy | 20.0 |
| Goleuadau eco | 1.0 |
| Oriel Gelf Glynn Vivian | 3.5 |
| Canolfan Cydgysylltu Strategol | 10.0 |
| Ysbyty Plant Cymru | 8.0 |
| Canolfan Gelfyddydau ac Arloesi Da Vinci | 15.0 |
| **CYFANSWM** | **118.3** |

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru *Tranche 2 y Fframwaith Buddsoddi Cyfalaf Strategol.*

Mae'r symiau yn Nhabl 2 yn rhai dynodol ar gyfer blwyddyn ariannol 2010-11 yn unig, a disgwylir i'r holl arian gael ei wario erbyn diwedd y flwyddyn ariannol honno. Fel yn achos Tranche 1, nid yw'r datganiad gyfystyr â dyraniad ffurfiol o arian, oherwydd bod rhaid awdurdodi hynny drwy broses y gyllideb.

## 5: A fydd trydydd tranche o dan y Fframwaith?

[17] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, **Cofnod y Trafodion p14**, y Pwyllgor Cyllid, 8 Hydref 2009.

Yn ôl Llywodraeth Cymru ym mis Tachwedd 2009:[18]

> No announcements have been made on future tranches of SCIF funding.
>
> We will be reviewing the use of SCIF funding allocations and potential future funding on a regular basis and where schemes have scored well that will be taken account of should additional resources be made available.
>
> We will shortly launch a lessons learnt exercise in relation to the bidding process for Tranche 2. This provides the opportunity to improve the transparency and quality of future bids.

## 6. Rhagor o wybodaeth

I gael rhagor o wybodaeth ynghylch agweddau ar y Gronfa Buddsoddi Cyfalaf Strategol, cysylltwch ag **Eleanor Roy** (**Eleanor.Roy@Wales.gov.uk**) neu **Leon Gooberman** (**Leon.Gooberman@Wales.gov.uk**), Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau.

Rhestr lawn o'n **hysbysiadau hwylus**.

**MRS 10/1316 Leon Gooberman**

**Caiff papurau briffio Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau eu llunio er budd Aelodau'r Cynulliad a'u staff cymorth. Gall yr awduron drafod cynnwys y papurau hyn gydag Aelodau a'u staff ond ni allant gynghori aelodau'r cyhoedd. Rydym yn croesawu sylwadau ar ein papurau briffio a dylid anfon y rhain at Wasanaeth Ymchwil yr Aelodau, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Caerdydd CF99 1NA neu anfonwch e-bost at MembersLibrary@wales.gov.uk**

[18] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Gohebiaeth oddi wrth y Gweinidog dros Gyllid a Chyflenwi Gwasanaethau Cyhoeddus yn dilyn cyfarfod o'r Pwyllgor Cyllid, 2 Tachwedd 2009